# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD MAWRTH, 10 MAI 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** | **Y Cynghorydd/wyr** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | M H Jones | E T Kirchner |
| C L Philpott | I M Richard | P B Smith |
| M Thomas | D W W Thomas | T M White |

**Hefyd yn bresennol (Aelodau Wardiau Lleol)**
Y Cynghorwyr J P Curtice, D S Lewis, C R Evans, R Francis-Davies, A S Lewis, R C Stewart, J A Hale, C E Lloyd ac N J Davies.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: D W Cole ac A M Cook

102 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd I M Richard – Cofnod Rhif 108 - Cais Cynllunio 2016/0086 (Eitem 4) – Rhagderfyniad. (Ni adawodd y cyfarfod gan y gohiriwyd yr eitem am Ymweliad Safle.)

Y Cynghorydd T M White – Cofnod Rhif 108 - Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Anghysondeb yn y Map Diffiniol mewn perthynas â Llwybr Cerdded 35 - Cymunedau Penrhys a Llanilltud Gŵyr. Personol gan fy mod yn adnabod yr unigolyn sydd wedi cyflwyno tystiolaeth.

103 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2016 yn gofnod cywir.

104 **EITEMAU I'W GOHIRIO / TYNNU'N ÔL.**

Gohiriwyd yr eitem ganlynol gan swyddogion am y rheswm a nodir isod:

Eitem 6 yr Agenda - Cais i gofrestru tir a adnabyddir fel Parc y Werin, Gorseinon, Abertawe yn faes tref neu bentref - Cais Rhif 2734(S).

I ganiatáu i'r arolygydd ystyried gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

105 **HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS - ANGHYSONDEB YN Y MAP DIFFINIOL O RAN LLWYBR TROED 35 - CYMUNEDAU PENRHYS AC ILSTON.**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio pennu a ddylid gwneud gorchymyn dargyfeirio llwybr cyhoeddus i ddargyfeirio llinell ddiffiniol bresennol llwybr cerdded rhif 35.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Cynllunio eisoes wedi pennu nad oedd digon o dystiolaeth i wneud gorchymyn addasu tystiolaethol i gywiro'r anghysondeb yn aliniad llwybr cerdded rhif 35. Felly mae'n ofynnol ystyried gwneud gorchymyn llwybr cyhoeddus i gywiro'r anghysondeb a chydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol y cyngor i wneud hynny.

Cafodd yr ymgynghoriad, yr agweddau cyfreithiol ar y mater, y llwybr presennol a'r llwybr newydd arfaethedig (A-F-G-H-I-J-K-E) eu nodi a'u hesbonio'n fanwl yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwneud gorchymyn dargyfeirio llwybr cyhoeddus er mwyn dargyfeirio llinell ddiffiniol bresennol llwybr cerdded rhif 35 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

106 **HEOL TRAVISTOCK A HEOL PARC WERN, SGETI, ABERTAWE - GORCHYMYN CADW COED P 17.7.4 599.**

Cyflwynodd Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o'r cadarnhad, ar ffurf gorchymyn llawn, Gorchymyn Cadw Coed arfaethedig 599 - Heol Tavistock a Heol Parc Wern, Sgeti, Abertawe.

Cafodd yr hanes cefndir, arfarniad o'r safle, gwrthwynebiadau a sylwadau a dderbyniwyd eu hamlinellu yn yr adroddiad. Ymwelodd aelodau â'r safle yn dilyn gohiriad yn y cyfarfod blaenorol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed: Heol Tavistock a Heol Parc Wern, Sgeti, Abertawe.

107 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO O DAN DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.**

Cyflwynodd Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio gyfres o geisiadau cynllunio.

Adroddwyd ar ddiwygiadau i'r atodlen hon ac fe'u nodir isod â (#).

**PENDERFYNWYD:**

**(1) GOHIRIO'R** cais cynllunio a nodir isod yn unol â'r **broses bleidleisio dau gam** er mwyn cael rhagor o gyngor gan swyddogion am resymau dros wrthod o ran Dim Tai Fforddiadwy, Pryderon Priffordd a Cholli Amwynderau i Blant Ysgol yn Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw.

**#(Eitem 1) Cais Cynllunio 2014/0977 - Parc Ceirw, Chwarel Cwmrhydyceirw a'r tir cyfagos, Cwmrhydyceirw, Abertawe**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Ym mharagraff olaf tudalen 133, cynigir mannau mynediad i gerddwyr o Heol Vicarage (nid Heol Maes y Gwernan fel y nodwyd), Heol Cwmrhydyceirw a Bythynnod y Rheilffordd.

Dylai paragraff 3 ar dudalen 148 nodi yn yr ail linell '...terfynu defnydd o safle tirlenwi' ac nid 'terfynu defnydd o'r chwarel'.

Amod 35 - Diwygio'r geiriad i gyfeirio at leiniau A, C a D (nid A, B ac C).

Ychwanegu'r Adran 106 ganlynol o'r Rhwymedigaeth Gynllunio: Y Tu Hwnt i Frics a Morter - bydd y datblygwr yn ymrwymo, dan gynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter y cyngor, i ddod â gwerth cymdeithasol ychwanegol i'r datblygiad drwy hyfforddiant a gweithgareddau cyflenwi wrth ddatblygu'r safle.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Geraint John (asiant) a Mr G Rees (gwrthwynebydd) y pwyllgor.

Anerchodd y Cynghorwyr R C Stewart, R Francis-Davies, C R Evans ac A S Lewis (Aelodau Lleol) y pwyllgor gan siarad yn erbyn y cais.

**(2) GOHIRIO'R** ceisiadau cynllunio a nodir isod am **YMWELIADAU SAFLE** am y rhesymau a amlinellir isod:

**#(Eitem 2) Cais Cynllunio 2015/2223 - Tir oddi ar Ffordd Fabian, Abertawe**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
9 Mai 2016 - Derbyniwyd llythyr arall yn gwrthwynebu. Mae'n cyfeirio at gwsmeriaid yn ymweld â'r safle ar daith benodol yn hytrach na chwsmeriaid sy'n mynd heibio yn unig. Mae pryderon yn cynnwys ychwanegu at lygredd, diogelwch priffordd a phobl yn osgoi teithio i Abertawe.

**#(Eitem 4) Cais Cynllunio 2016/0086 - Tir ar Fferm Cefn Betingau, Treforys, Abertawe**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Fel nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch natur y datblygiad, dylai'r cynnig ddarllen fel a ganlyn: Adeiladu fferm solar heb gydymffurfio ag amod 8 caniatâd cynllunio 2013/0865 sy'n gofyn am blannu gwrych i rannu caeau 9 a 10.

**(3) GWRTHOD** y cais cynllunio a nodir isod am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**#(Eitem 3) Cais Cynllunio 2015/2258 - Tir yn Fferm Cawsi, Heol Mynydd Gelli Wastad, Treforys, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Mr P Vining (yn gwrthwynebu ar ran PABM) y pwyllgor.

**(4) CYMERADWYO'R** cais cynllunio a nodir isod yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**#(Eitem 5) Cais Cynllunio 2016/0605 - 38 Ysgol Oakleigh House, Penlan, Cilgant Uplands, Abertawe**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

9 Mai 2016 - Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd - mae'r datganiad cynllunio yn rhoi gwybodaeth am y defnydd arfaethedig.

9 Mai 2016 - Ymateb gan y Cyng. Peter May - yn cynghori ar broblemau parcio a mynediad difrifol dros y blynyddoedd. Nododd fod y cais am 2 ystafell ddosbarth ac nid 6 phlentyn ychwanegol a bod deddfwriaeth ac arweiniad yn newid. Mae'n bryderus y gallai etholwyr gael eu gadael mewn sefyllfa lle mae gan yr ysgol le i hyd at 50 o ddisgyblion ychwanegol a fyddai'n arwain at 50 o geir ychwanegol. Mae'n gofyn i'r pwyllgor wneud cais am farn ddiwygiedig gan yr ymgyngoreion statudol yn seiliedig ar gynnydd o 50 o blant (2 ystafell ddosbarth) ac os yw'r pwyllgor yn teimlo ei fod am gymeradwyo hyn, yna dylid cynnwys amod sy'n gwneud cais i'r ymgeisydd dalu am gostau barrau H ar gyfer preswylwyr Cilgant Penlan a Gerddi Notts mewn ymdrech i ddiogelu mynediad i'w heiddo.
9 Mai 2016 - Derbyniwyd e-bost gan breswylydd a oedd yn atodi 7 llun yn dangos parcio yn yr ardal.

7 Mai 2016 - Gwrthwynebiad ychwanegol. Codi pryderon am yr ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn amharu ar ansawdd bywyd a gwerth tai oherwydd yr aflonyddiad a grëir. Pryderon na all yr ardal ymdopi â'r traffig ychwanegol.

108 **PROTOCOL DRAFFT Y PWYLLGOR CYNLLUNIO.**

Cyflwynodd Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o ymateb i Brotocol Drafft Pwyllgorau Cynllunio CLILC.

Cafodd meysydd cefndir y mae'r protocol drafft newydd yn eu cynnwys, arfarniad y swyddog o'r meysydd pwnc hyn ac ymateb drafft eu hamlinellu'n fanwl yn yr adroddiad.

Byddai'n rhaid trefnu hyfforddiant ychwanegol i aelodau yn y flwyddyn ddinesig newydd petai'r awdurdod yn cael ei ddewis fel maes "trywydd".

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ymateb i'r adroddiad, a nodwyd yn Atodiad 1, fel ymateb yr awdurdod i ymgynghoriad CLILC ar y Protocol Drafft Pwyllgorau Cynllunio.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.53 pm

**CADEIRYDD**